V.02

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Ceisiadau i adfer:

# Canllaw i ymgeiswyr

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

# Cais i Adfer: Canllawiau i Ymgeiswyr

Os gwnaeth Panel Addasrwydd i Ymarfer **ddileu** eich enw o'r Gofrestr Gofal Cymdeithasol ac yr hoffech wneud **cais i gael eich adfer** i'r Gofrestr, darllenwch y ddogfen hon.

### Cyflwyniad

Fel y dywedwyd yn ein Rheolau Cofrestru, ni ellir gwneud cais am adfer i'r Gofrestr cyn pen 5 mlynedd o'r dyddiad dileu (h.y. y dyddiad pan ddaeth y Gorchymyn Dileu i rym).

Mae'r Panel Apelau Cofrestru (y panel) yn ystyried ceisiadau am adfer gan weithwyr (ymgeiswyr) sydd wedi cael eu dileu gan Banel Addasrwydd i Ymarfer.

### Sut i wneud cais i adfer

I ailymgeisio i gofrestru, bydd angen i chi lenwi cais ar GCCarlein. Yna, bydd panel yn penderfynu a ddylid caniatáu i chi gofrestru.

Hyd yn oed os ydych am wneud cais i weithio mewn rôl gofrestredig wahanol, rhaid i chi wneud cais i gael eich adfer i'r rôl y cawsoch eich dileu ohoni, cyn ymgeisio i rôl wahanol os bydd eich cais yn llwyddiannus ac rydych yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y rôl honno.

I adfer, bydd angen gwybodaeth ategol i ategu'ch cais, er enghraifft:

- geirdaon (gan gydweithwyr a chyflogwr/cyflogwyr blaenorol a phresennol) i gwmpasu'r cyfnod ers eich dileu o'r gofrestr, i fodloni'r Cofrestrydd ynghylch eich:

    1. cymeriad da
    2. ymddygiad
    3. cymhwysedd
    4. addasrwydd corfforol a meddyliol i ymarfer mewn gwaith cymdeithasol, neu yn y maes gwaith gofal cymdeithasol yr ydych am gofrestru i weithio ynddo.

Darparwch:

- eich hanes cyflogaeth ers cael eich dileu o'r Gofrestr
- eich statws cyflogaeth presennol a geirda gan eich rheolwr llinell presennol
- tystiolaeth o unrhyw ddysgu a datblygiad a wnaethoch ers cael eich dileu o'r Gofrestru a sut, yn eich barn chi, y mae wedi'ch helpu i gadw i fyny â datblygiadau ym maes gofal cymdeithasol a sut y bydd yn eich helpu i ddychwelyd i weithio yn unol â safonau disgwyliedig gweithiwr proffesiynol rheoleiddiedig
- unrhyw wybodaeth arall a fyddai, yn eich tyb chi, yn helpu'r panel i benderfynu a ydych chi'n addas i gael eich cofrestru; er enghraifft, gallai fod yn ddefnyddiol i'r panel gael rhywbeth ysgrifenedig gennych yn disgrifio pam rydych yn addas i gael eich cofrestru, yn eich tyb chi, a sut rydych wedi mynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at eich dileu o'r Gofrestr.

Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a gallwch ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ategu eich cais yn eich barn chi.

**Gweithwyr cymdeithasol yn unig**: os ydych chi'n gwneud cais i gael eich cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, rhaid i chi hefyd gynnwys portffolio o dystiolaeth o'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a wnaed mewn gwaith cymdeithasol ers cael eich dileu o'r Gofrestr. Dylai eich portffolio fod yn orffenedig pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais i adfer.

Bydd y portffolio DPP yn cael ei asesu'n annibynnol ar wrandawiad y Panel Apelau Cofrestru a bydd yr argymhellion o'r asesiad hwnnw'n cael eu rhannu â'r panel er mwyn iddynt eu hystyried ochr yn ochr â'r cais i adfer. Gall penderfyniad y panel ddisodli'r argymhellion o'r adolygiad o'r portffolio.

Yn eich portffolio DPP, rhaid i chi ddarparu:

1. tystiolaeth o nifer yr oriau a wnaed
2. beth roedd yr hyfforddiant yn ei gynnwys
3. sut y gwnaeth eich helpu i gynnal eich gwybodaeth am waith cymdeithasol, a
4. sut y bydd yn eich helpu i ddychwelyd i ymarfer.

I gael manylion pellach am ofynion dychwelyd i ymarfer, ewch i'n gwefan.

## Ar ôl cyflwyno cais

Ar ôl i'r tîm Cofrestru gael cais gorffenedig i adfer (a'r portffolio os ydych chi'n cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol), byddant yn prosesu'r cais ac yn ei atgyfeirio i'r tîm Addasrwydd i Ymarfer i gasglu tystiolaeth ar gyfer ymateb Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bydd y tîm Addasrwydd i Ymarfer yn cysylltu â chi pan fyddant yn dechrau eu proses, oherwydd efallai bydd angen mwy o wybodaeth arnynt.

Yn achos Gweithwyr Cymdeithasol, pan fydd y portffolio DPP wedi'i asesu ac argymhelliad annibynnol wedi'i wneud, caiff ei roi i'r tîm Addasrwydd i Ymarfer i adolygu'r cais. Gallai fod angen mwy o wybodaeth arnyn nhw a rhoddant wybod i chi am hynny.

Pan fydd y tîm Addasrwydd i Ymarfer wedi casglu eu tystiolaeth, caiff y cais ei atgyfeirio i'r Tîm Gwrandawiadau i drefnu gwrandawiad y Panel Apelau Cofrestru. Bydd y Tîm Gwrandawiadau yn anfon llythyr atoch i'ch gwahodd i gyfarfod Adolygiad Cyn Gwrandawiad.

## Panel Apelau Cofrestru

### Cyfarfod Adolygiad Cyn Gwrandawiad

I wneud trefniadau ar gyfer gwrandawiad y Panel Apelau Cofrestru, bydd cyfarfod adolygiad cyn gwrandawiad yn cael ei gynnal. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ar Zoom ac ni fyddant yn para mwy nag awr, fel arfer. Bydd y cyfarfod rhyngoch chi (yr ymgeisydd), eich cynrychiolydd, os oes gennych gynrychiolydd, y Swyddog Addasrwydd i Ymarfer a'r Cyflwynydd, sy'n debygol o gyflwyno'r achos i'r Panel. Bydd Cynghorydd Cyfreithiol yn cadeirio'r cyfarfod a bydd Clerc yn gwneud cofnodion yn y cyfarfod ac yn cydlynu'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Prif ddiben y cyfarfod fydd gwneud trefniadau ar gyfer gwrandawiad y Panel Apelau Cofrestru a gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth fydd y Panel yn edrych arno, oherwydd eich cyfrifoldeb chi fydd profi i'r panel eich bod yn addas i'ch cofrestru.

Bydd y cyfarfod yn trafod:

- y dystiolaeth rydych chi a Gofal Cymdeithasol Cymru am i'r panel ei chael a phryd y dylai hon gael ei hanfon at y Clerc i'w rhannu gyda'r panel
- p'un a fydd gennych chi a Gofal Cymdeithasol Cymru unrhyw dystion i siarad â'r panel
- dyddiad y gwrandawiad
- p'un a oes angen gwneud unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer y gwrandawiad.

O fewn 7 diwrnod calendr o gyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad, byddwn yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau'r hyn a drafodwyd ac y cytunwyd arno. Darllenwch y llythyr hwn yn ofalus, oherwydd gall gynnwys cyfarwyddiadau y bydd disgwyl i chi eu cwblhau cyn y gwrandawiad.

**Baich y Prawf**

Arnoch chi mai baich y prawf; hynny yw, eich cyfrifoldeb chi yw profi i'r panel y dylech gael eich adfer i'r Gofrestr. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i brofi eich addasrwydd. Dylech fod yn bresennol yn y gwrandawiad, fel y gallwch siarad â'r panel yn uniongyrchol.

**Gwrandawiad Cyhoeddus neu Breifat**

Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus. Fodd bynnag, os ydych chi wedi datgan cyflwr meddygol ar eich cais a rhoddwyd tystiolaeth feddygol i'r Panel, gall rhan o'r gwrandawiad neu'r cyfan ohono gael ei gynnal yn breifat, heb y cyhoedd. Os ydych am i'r gwrandawiad barhau'n gyhoeddus, byddwch yn gallu gofyn i'r panel ystyried hyn. Mae cael ei gynnal 'yn gyhoeddus' yn golygu y bydd dyddiad ac amser y gwrandawiad, a'ch enw a'ch rôl (e.e. gweithiwr cymdeithasol), yn cael eu rhoi ar ein gwefan wythnos cyn bod y gwrandawiad yn digwydd. Gellir trafod hyn yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad.

Rhoddir canlyniadau gwrandawiadau cyhoeddus ar ein gwefan am gyfnod penodol ar ôl cynnal y gwrandawiad. I gael mwy o fanylion am y wybodaeth rydym ni'n ei chyhoeddi, gweler ein Polisi Cyhoeddi.

**Gallwch gael eich cynrychioli yn y gwrandawiad**

Os hoffech ddod i'r gwrandawiad, gallwch ddod ar eich pen eich hun a chynrychioli eich hun, neu ddod â rhywun gyda chi i'ch cynrychioli, fel:

a) cyfreithiwr
b) bargyfreithiwr
c) cynrychiolydd eich Undeb Llafur
ch) cynrychiolydd Corff Proffesiynol, fel Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.

Gallai'r Panel Apelau Cofrestru hefyd ganiatáu i chi gael eich cynrychioli gan rywun arall sydd heb ei restru uchod. Dim hwyrach na 48 awr cyn y gwrandawiad, dylech ddweud wrthym pwy fydd yn eich cynrychioli chi a rhoi eu manylion cyswllt i ni fel ein bod yn darparu gwybodaeth iddynt am y gwrandawiad a dolen Zoom. Gellir trafod hyn yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad.

**Cefnogaeth foesol**

Os ydych am i ffrind neu aelod o'r teulu fod gyda chi yn y gwrandawiad i roi cefnogaeth foesol i chi, bydd hynny'n iawn. Rhowch wybod i ni cyn y gwrandawiad os bydd rhywun gyda chi. Gellir trafod hyn yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad.

**Galw tystion**

Cewch alw tystion yn y gwrandawiad os hoffech iddynt ddweud wrth y Panel pam y dylai eich cais i adfer gael ei ganiatáu. Yr enw ar hyn yw 'tyst i gymeriad' neu 'eirda'. Byddwn yn siarad am hyn yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad, felly os byddwch yn meddwl am rywun a fyddai'n gallu siarad â'r panel amdanoch chi a'ch addasrwydd i gofrestru, rhowch wybod i ni yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad. Bydd angen eu henw a'u manylion cyswllt arnom fel y gallwn anfon y ddolen Zoom atynt i ymuno â'r gwrandawiad.

**Iechyd**

Os ydych wedi datgan cyflwr meddygol ar eich cais, gallem ofyn i chi am fwy o wybodaeth a gall fod angen adroddiad meddygol diweddar arnom, y byddwn yn talu amdano. Bydd hyn yn golygu y byddwn yn trefnu apwyntiad i chi gael archwiliad gan ymarferwr meddygol. Gallwch ofyn i'ch meddyg teulu neu unrhyw ymarferwr meddygol arall sy'n eich adnabod chi roi tystiolaeth i'r panel (fel tyst) am eich iechyd, os byddai'n helpu i ategu eich cais i adfer yn eich tyb chi, neu gallwch ofyn iddynt lunio adroddiad neu lythyr i'r Panel. Gall hyn gael ei drafod yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad.

**Llythyr hysbysu**

Byddwn yn anfon llythyr Hysbysiad o Wrandawiad atoch o leiaf 42 diwrnod cyn y cynhelir y gwrandawiad. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau dyddiad ac amser y gwrandawiad a bydd yn cynnwys y ddolen Zoom. Gallwch ofyn i'r gwrandawiad gael ei gynnal cyn 42 ddiwrnod ond bydd angen hyn arnom yn ysgrifenedig, neu dywedwch wrthym yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad pan drafodir dyddiad y gwrandawiad.

Gyda'r llythyr, byddwn yn cynnwys:

- copi o drawsgrifiad o wrandawiad y Panel Addasrwydd i Ymarfer a wnaeth y Gorchymyn Dileu (os bydd ar gael)
- unrhyw ddogfennau rydych chi a Gofal Cymdeithasol Cymru am i'r Panel eu hystyried
- copi o Reolau Paneli Apelau Cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru.

Anfonwch unrhyw ddogfennau yr hoffech i'r panel eu hystyried gyda'ch cais at y Clerc, ar clerks@gofalcymdeithasol.cymru, o leiaf 14 diwrnod calendr cyn y gwrandawiad.

**Pwy fydd yn y gwrandawiad?**

- Chi a'ch cynrychiolydd, os dewiswch chi gael cynrychiolydd
- Cyflwynydd Gofal Cymdeithasol Cymru – mae'n cyflwyno'r achos ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru
- y swyddog Addasrwydd i Ymarfer
- Aelodau'r Panel
- Cynghorydd Cyfreithiol
- Cynghorydd Meddygol, os yw'n berthnasol
- Clerc
- efallai aelodau'r cyhoedd (os cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus).

## Panel

Mae'r Panel Apelau Cofrestru yn cynnwys tri o bobl:

1. Cadeirydd – sy'n aelod lleyg
2. Aelod lleyg arall
3. Aelod gofal cymdeithasol.

Mae'r aelodau panel yn unigolion annibynnol sy'n cael eu penodi gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Efallai bydd gan yr aelod gofal cymdeithasol wybodaeth am eich maes gwaith gofal cymdeithasol, neu gefndir yn y maes. Nid oes gan aelod lleyg unrhyw gefndir proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ond gall fod yn defnyddio gofal a chymorth.

## Cynghorydd Cyfreithiol

Mae'r Cynghorydd Cyfreithiol yn gyfreithiwr a'i rôl yw darparu cyngor i'r Panel a gwneud yn siŵr bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn deg ac yn unol â Rheolau perthnasol Gofal Cymdeithasol Cymru. Os byddwch chi ar eich pen eich hun yn y gwrandawiad, heb gynrychiolaeth, gallai'r Cynghorydd Cyfreithiol eich helpu trwy wneud yn siŵr eich bod yn deall beth sy'n digwydd yn ystod y gwrandawiad. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi fydd esbonio wrth y Panel pam y dylech gael eich cofrestru eto, yn eich tyb chi. Gallai'r Cynghorydd Cyfreithiol ofyn cwestiynau i chi ac unrhyw dystion.

Bydd y Cynghorydd Cyfreithiol yn bresennol yn ystod trafodaethau preifat y panel ond nid oes hawl ganddo gymryd rhan ym mhenderfyniad y Panel.

## Cynghorydd Meddygol

Os ydych wedi datgan cyflwr iechyd ar eich cais, gallai'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat a bydd Cynghorydd Meddygol yn bresennol yn y gwrandawiad i roi eglurhad i'r panel o dermau meddygol y cyfeirir atynt mewn unrhyw dystiolaeth feddygol. Bydd y Cynghorydd Meddygol yn eu helpu i ddeall y dystiolaeth feddygol a gall ofyn cwestiynau i chi am eich iechyd a'ch cyflwr meddygol (gellid gwneud hyn yn breifat, heb i neb arall yn y gwrandawiad fod yn bresennol, os oes angen).

Bydd y Cynghorydd Meddygol yn bresennol yn ystod trafodaethau preifat y panel ond nid oes hawl ganddo gymryd rhan ym mhenderfyniad y Panel.

## Clerc

Y Clerc fydd eich prif bwynt cyswllt am wrandawiad y panel apelau cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawiad. Mae'r Clerc yn aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n gwneud yn siŵr bod y gwrandawiad yn mynd rhagddo'n hwylus ac yn unol â'r Rheolau. Nid yw'r Clerc yn ymuno â'r panel ar gyfer ei drafodaethau preifat nac yn cymryd rhan yn ei benderfyniadau.

## Gofynion arbennig

Er mwyn i chi allu siarad â'r panel yn y ffordd fwyaf addas a chyfforddus i chi, rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion penodol cyn i'r gwrandawiad gael ei gynnal. Er enghraifft, os hoffech wasanaethau cyfieithu neu ddehongli. Dylid trafod unrhyw ofynion arbennig yng nghyfarfod yr Adolygiad Cyn Gwrandawiad, oherwydd bydd angen amser arnom i wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

## Tôn y gwrandawiad

Mae tôn a gweithdrefn y gwrandawiad yn ffurfiol oherwydd difrifoldeb y penderfyniad sy'n cael ei wneud. Bydd egwyliau rheolaidd yn ystod y gwrandawiad a chewch eich ystafell ymneilltuo eich hun ar Zoom yn ystod egwyliau.

**Mynychu gwrandawiadau Panel Apelau Cofrestru**

Cynhelir gwrandawiadau ar Zoom. Gallwch ofyn hefyd i'r Clerc am alwad brawf fel y byddwch yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnod y gwrandawiad. Pan fyddwch yn mewngofnodi i Zoom ar ddiwrnod y gwrandawiad, bydd y Clerc yn cyfarfod â chi ac yn dyrannu ystafell ymneilltuo i chi, y bydd y Clerc yn ei hagor i chi. Bydd hyn yn rhoi preifatrwydd i chi baratoi ar gyfer y gwrandawiad a threulio unrhyw egwyliau yn ystod y gwrandawiad.

Mewngofnodwch o leiaf 15 munud cyn y gwrandawiad i wneud yn siŵr bod eich cysylltiad yn ddibynadwy ac i wirio am unrhyw broblemau TG, fel y gall y gwrandawiad ddechrau ar amser. Os nad ydych wedi defnyddio Zoom o'r blaen, gwyliwch y fideos hyn i ddeall beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawiad Zoom a phwy fydd yn y gwrandawiad.

**Gweithdrefn y gwrandawiad**

Caiff gwrandawiadau eu recordio a dyma fydd gweithdrefn y gwrandawiad:

- **Agor y gwrandawiad a chyflwyniadau**

Bydd y Cadeirydd yn agor y gwrandawiad trwy groesawu pawb a chadarnhau eu bod yn gallu gweld a chlywed y Cadeirydd yn glir.

Bydd y Cadeirydd yn darllen eich enw ac enw'ch cynrychiolydd (os yw'n bresennol). Gallai'r Cadeirydd ofyn i chi gadarnhau eich enw fel bod eich llais yn hawdd ei adnabod ar y recordiad.

Yna, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno aelodau'r panel a'r bobl eraill sy'n bresennol (gweler uchod) ac yn esbonio gweithdrefn y gwrandawiad, cyn gofyn i'r Cyflwynydd agor yr achos ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru.

- **Agor yr achos – Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae'r Cyflwynydd yn rhoi 'datganiad agoriadol' i'r panel, a allai gynnwys hanes eich achos ac amgylchiadau gwneud y Gorchymyn Dileu.

Yna, gall y Cyflwynydd gyfeirio at ddogfennau penodol a ystyriodd y panel addasrwydd i ymarfer a wnaeth y gorchymyn dileu, ac unrhyw ddogfennau eraill a roddwyd i Ofal Cymdeithasol Cymru ers hynny sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer.

Gellid gofyn i dystion ymuno â'r gwrandawiad i siarad â'r panel ac ateb unrhyw gwestiynau. Oherwydd bydd y tystion mewn ystafelloedd ymneilltuo yn aros, bydd y gwrandawiad yn oedi am funud fel y gall y Clerc gau eu hystafell ymneilltuo er mwyn iddynt ymuno â'r gwrandawiad.

Bydd y Cyflwynydd yn gofyn cwestiynau i'r tystion i ddechrau. Byddwch chi, y panel a'r cynghorydd cyfreithiol hefyd yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt.

- **Eich cyfle i siarad â'r panel**

Yna, byddwch chi neu eich cynrychiolydd, os oes gennych gynrychiolydd, yn cael cyfle i siarad â'r panel a dweud wrthynt pam y dylai eich cofrestriad gael ei adfer. Gallwch gyfeirio at ddogfennau penodol a gofyn i'ch tystion ymuno â'r gwrandawiad bryd hwn. Gelwir un tyst ar y tro.

Oherwydd bydd y tystion mewn ystafelloedd ymneilltuo yn aros, bydd y gwrandawiad yn oedi am funud fel y gall y Clerc gau eu hystafell ymneilltuo er mwyn iddynt ymuno â'r gwrandawiad.

Bydd unrhyw dystion a alwch yn ateb eich cwestiynau chi gyntaf. Bydd y Cyflwynydd, y panel a'r Cynghorydd Cyfreithiol hefyd yn cael cyfle i ofyn cwestiynau.

Pan fyddwch chi a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gorffen eich cyflwyniad i'r panel, bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau terfynol ynghylch pam y dylai eich cofrestriad gael ei adfer.

Bydd y Cynghorydd Cyfreithiol a'r Cynghorydd Meddygol (os yw'n bresennol) yn rhoi cyngor cyfreithiol a chyngor meddygol cyn bod y panel yn mynd i'w hystafell ymneilltuo breifat i ddod i benderfyniad.

Gall y Panel gymryd tipyn o amser i ddod i benderfyniad, felly dywedwch wrth y Clerc os yw'n well gennych adael Zoom hyd nes bod y Panel yn barod i gyhoeddi ei benderfyniad.

Bydd y Clerc yn cysylltu â chi gan ofyn i chi fewngofnodi eto i glywed y canlyniad. Rhoddir y canlyniad ar ddiwrnod y gwrandawiad.

- **Proses benderfynu'r Panel**

Bydd y Panel yn ystyried y materion canlynol:

- y rhesymau pam y gosodwyd Gorchymyn Dileu
- tystiolaeth o'ch cymeriad da, eich cymhwysedd a'ch iechyd presennol
- tystiolaeth o'ch ymddygiad ers dileu'ch enw o'r Gofrestr (byddant yn edrych ar y dystiolaeth a gyflwynoch gyda'ch cais)
- amddiffyn y cyhoedd
- y budd i'r cyhoedd o ran cynnal hyder mewn gweithwyr gofal cymdeithasol a chynnal safonau
- adfer gweithwyr cymdeithasol – y portffolio dychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol ac a fodlonwyd y gofynion dychwelyd i ymarfer perthnasol.

Y penderfyniad a fydd ar gael i'r panel fydd:

- dylid adfer eich cofrestriad, neu,
- ni ddylid adfer eich cofrestriad.

**Y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ac yn dod â'r gwrandawiad i ben**

Pan fydd y Panel wedi gwneud ei benderfyniad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Clerc gau'r ystafelloedd ymneilltuo a dod â phawb yn ôl i'r gwrandawiad. Os ydych chi wedi gadael Zoom, bydd y Clerc yn eich ffonio neu eich e-bostio i ofyn i chi fewngofnodi eto.

Pan fydd pawb a oedd yn y gwrandawiad wedi dychwelyd i ystafell y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn croesawu pawb eto ac yn rhoi'r canlyniad, ac yn darllen rhesymau'r Panel.

Os nad ydych yn deall y canlyniad, gofynnwch i'r Cadeirydd ei esbonio i chi neu gofynnwch am gael siarad â'r Clerc ar ddiwedd y gwrandawiad.

Bydd y Cadeirydd yn diolch i bawb am fod yn bresennol ac yn dod â'r gwrandawiad i ben.

Bydd y Clerc yn cau'r alwad Zoom pan fydd pawb wedi ymadael, ond os hoffech siarad â'r Clerc neu'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer am y canlyniad, rhowch wybod i'r Clerc.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad y Panel (gweler isod).

Byddwn yn anfon y canlyniad atoch a rhesymau'r panel mewn llythyr Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 7 diwrnod calendr i'r gwrandawiad.

**Llythyr Hysbysiad o Benderfyniad**

Mae llythyr Hysbysiad o Benderfyniad yn cadarnhau'r canlyniad ac yn rhoi rhesymau'r panel. Bydd copi o'r Hysbysiad hefyd yn cael ei anfon i'ch cyflogwr presennol (os oes gennych gyflogwr presennol).

Gan fod gwrandawiadau'n cael eu recordio, gall trawsgrifiad o'r gwrandawiad gael ei anfon atoch, os gofynnwch amdano. Caniatewch hyd at 14 diwrnod calendr ar gyfer cynhyrchu trawsgrifiad.

Os cynhaliwyd y gwrandawiad yn gyhoeddus, bydd y canlyniad yn cael ei osod ar ein gwefan am gyfnod penodol. I gael mwy o wybodaeth am ba wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi, ewch i'n Polisi Cyhoeddi, sydd ar gael ar dudalen Gwrandawiadau ein gwefan.

Os caniateir eich cais, bydd y Gofrestr yn cael ei diweddaru yn fuan wedi hynny i ddangos eich bod wedi'ch cofrestru.

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y Rheolau Panel Apelau Cofrestru.

**Apelio yn erbyn penderfyniad y panel**

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad i beidio ag adfer eich enw i'r Gofrestr.

Y Tribiwnlys Safonau Gofal (Haen Gyntaf) sy'n ystyried apelau.

Ewch i www.carestandardstribunal.gov.uk i gael rhagor o fanylion am sut i apelio.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**Gwybodaeth bellach**

Os hoffech drafod gweithdrefn neu drefniadau'r gwrandawiad, cysylltwch â'r Tîm Gwrandawiadau ar

029 20780 640 neu gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru